OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1215

## Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

## RHAN 5

### GORFODI A THROSEDDAU

**Talu'r gosb**

**24.**—(1) Rhaid talu unrhyw gosb i Weinidogion Cymru drwy ei hanfon drwy'r post neu drwy unrhyw ddull a bennir yn yr hysbysiad cosb.

(2) Mewn unrhyw achos, bydd tystysgrif yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan yn datgan bod taliad o gosb wedi ei gael neu heb ei gael erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.